## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Mercher, 19eg Rhagfyr 2001 am 10.00a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J. Butterfield, M.Ll. Davies, P.A. Dobb (Dirprwy ar ran D.M. Holder), P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams , I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, M.M. Jones (Sylwedydd), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Uwch Swyddog Cynllunio (De), Uwch Swyddog Cynllunio (Cynllun Datblygu) a Swyddog Gweinyddu (Gwen Butler).

### CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, S. Drew, D.M. Holder, F.D. Jones K.P. Stevens a W.G. Thomas.

### 1027. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

***PENDERFYNWYD*** *yn absenoldeb y Cynghorydd F.D. Jones, bod y Cynghorydd R.W. Hughes i gymryd y gadair ar gyfer y cyfarfod.*

**DYMUNIADAU GORAU**

Dymuniad y Pwyllgor oedd bod dymuniadau gorau i'w hanfon at y Cynghorydd F.D. Jones am adferiad buan.

**SWYDDOG NEWYDD**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio Jonathan Cawley, a oedd wedi ymuno â'r Gwasanaethau Cynllunio yn ddiweddar fel Uwch Swyddog Cynllunio (Cynllun Datblygu a Pholisi).

**PAPUR GWYRDD (DIWYGIADAU CYNLLUNIO)**

Cyfeiriodd Mr Phillips at y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Ddiwygio Cynllunio yn Lloegr a hysbysodd yr Aelodau y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio yn y dyfodol.

### 1028. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2001/0650/Cynllunio Llawn | Codi annedd ar gyfer Pennaeth Ysgol (Tþ'r Pennaeth) yn Ysgol Howells, Dinbych.<br>YN AMODOL ar gymeradwyo Adroddiad Arolygydd C.D.U. ac ar Amod Newydd rhif 6:-<br>6. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cynnal o fewn y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r cynllun a gymeradwyir wedyn i'w gwblhau cyn dechrau defnyddio'r datblygiad arfaethedig.<br>RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd a thraffig. |
| 01/2001/0653/Cynllunio Llawn | Codi adeilad i ddarparu cyfleusterau llety dros nos ar gyfer pobl bwysig yn ymweld a chroesawu gwesteion yn Ysgol Howells, Dinbych.<br>YN AMODOL ar gymeradwyo Adroddiad Arolygydd C.D.U ac ar Amod Newydd rhif 6 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd:-<br>6. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cynnal o fewn y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r cynllun a gymeradwyir wedyn i'w gwblhau cyn dechrau defnyddio'r datblygiad arfaethedig.<br>RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd a thraffig.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd<br>Fe'ch cynghorir nad oes dim datblygu i ddechrau hyd nes y bydd arolwg manwl wedi'i gyflwyno yn unol â chynllun sydd i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gadarnhau presenoldeb ystlumod o fewn y coed presennol ar y safle. Ble cadarnheir tystiolaeth o ystlumod a bod y datblygiad yn debygol o niweidio safle magu neu nythfa unrhyw rywogaeth, mae cais i'w wneud am drwydded i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â gofynion Cylchlythyr 23/2001. |
| 01/2001/1119/Cynllunio Llawn | Newid defnydd arfaethedig o Addolfan (D1) yn Dþ Annedd (C3) yn cynnwys codi ystafell wydr llawr cyntaf y tu ôl i'r adeilad yn hen Gapel Methodist Salem, Ffordd Rhuthun, Dinbych. |
| 02/2001/0744/Amlinellol | Datblygu tir at ddibenion preswyl (Cais Amlinellol) yn y Clwb Tennis, Bryn Goodman, Rhuthun.<br>(ystyrir y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor ac fe argymhellir ei gymeradwyo yn amodol ar amodau, ac ar yr amod y cwblheir cytundeb cyfreithiol gyda'r Cyngor i sicrhau bod lle hamdden yn ei le yn cael ei ddarparu yn Rhuthun, pryd y byddai tystysgrif penderfyniad yn cael ei chyhoeddi.)<br><br>YN AMODOL ar Amod diwygiedig rhif 6:-<br>6. Nid oes dim datblygu i fod o fewn rhychwant canghennau'r goeden aeddfed sydd wedi'i lleoli ar derfyn dwyreiniol y safle, ac mae'r goeden hon i'w diogelu tra fo'r safle'n cael ei glirio ac yn ystod gwaith adeiladu gan ffens 1 metr o uchder a godir 1 metr y tu allan i derfynau eithaf rhychwant y canghennau, neu yn unol â chynllun arall a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; nid oes dim defnyddiau adeiladu neu arteffactau o unrhyw fath i'w llosgi neu eu rhoi ar y ddaear sy'n gorwedd rhwng bonyn y goeden a'r ffens honno, ac o fewn y mannau hynny nid yw lefel bresennol y ddaear i'w chodi neu'i gostwng, neu unrhyw ffosydd neu redfeydd pibelli i'w cloddio heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o flaen llaw. |

RHESWM - er mwyn sicrhau na chaiff y goeden sydd i'w chadw ei niweidio gan waith adeiladu neu waith peirianyddol.

| | |
|---|---|
| 17/2001/0875/Cynllunio Llawn | Codi estyniad deulawr i'r annedd bresennol yn 8 Tai Newyddion, Llandegla, Wrecsam. |
| 21/2001/0829/Cynllunio Llawn | Dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd ar ei phen ei hun yn ei lle yn 16 Bryn Artro Avenue, Tafarn-y-Gelyn, Llanferres, Yr Wyddgrug. |
| 25/2001/0898/Cynllunio Llawn | Addasu tþ allan i ffurfio annedd fyw yn Bwthyn Penllan, Nantglyn, Dinbych. |
| 43/2001/0923/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)<br>Newid defnydd 2 fflat hunan-gynhwysol yn ystafell ymolchi ac ystafelloedd arddangos ceginau ac estyniad unllawr to gwastad ar y tu blaen i ffurfio blaen siop yn 48 Marine Road, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd:-<br>Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol 1, 3, 4, 5 a 10. |
| 43/2001/1054/Cynllunio Llawn | Codi estyniad to serth i'r annedd, garej ar ei phen ei hun, gwaith cloddio a newid defnydd tir i ffurfio estyniad i'r garej (yn rhannol ôl-weithredol) yn Quarry Cottage, Tan yr Allt, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar Amod Diwygiedig rhif 3, 4 a 5 ac Amod Newydd rhif 6 -<br>3. O fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn mae cynllun ar gyfer cadw, adfer a thirlunio'r darn a gloddiwyd y tu ôl (de) i'r estyniad a ganiateir drwy hyn i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.<br>RHESWM - er lles cymeriad a golwg yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.<br>4. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w gwneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol, i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaethau tebyg.<br>5. Cyn cychwyn y datblygiad, mae panel enghreifftiol o'r math o haenen y bwriedir ei defnyddio ar wynebau allanol y waliau i'w adeiladu ar y safle, ac mae'r datblygiad ond i fynd yn ei flaen yn unol â pha bynnag sampl a all gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ac mae'r rendr sydd i'w ddefnyddio ar yr adeilad(au) i fod yn gyfan gwbl o'r un math, gwead a lliw â'r panel enghreifftiol a gymeradwywyd.<br>6. Nid oes dim siediau, adeileddau neu adeiladau i'w codi ar ddarn estynedig y cwrtil y tu ôl i'r tþ annedd presennol fel y dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth ac yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn heb gymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM - er lles cymeriad a golwg yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.<br>(Gofynnodd y Cynghorydd R.W. Hughes iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio'n erbyn rhoi'r caniatâd cynllunio hwn.) |

43/2001/1121/Cynllunio Llawn

(Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad - (mae Gwesty'r Royal Victoria ar Sandy Lane) a thri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, Mr and Mrs K. Hedley, 2 Bastion Road, Prestatyn a Mrs J. Dutton).
Newid defnydd o Ddosbarth A1 yn Ddosbarth A3 lle prydau parod poeth yn 4 Bastion Road, Prestatyn.
YN AMODOL ar Amod Diwygiedig rhif 2:-
2. "10.00 - 23.30 o'r gloch" a "10.00 - 23.00 o'r gloch".

43/2001/1140/Cynllunio Llawn

(Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 21ain Rhagfyr 2001)
(Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn a Babtie)
Newid defnydd siop Dosbarth A1 Llawr Isaf a fflat llawr cyntaf yn ddeintyddfa Dosbarth D1 yn 222-224 Stryd Fawr, Prestatyn).
YN AMODOL ar Amod Newydd Rhif 3:-
3. Mae'r dderbynfa i'w darparu ar lawr isaf yr adeilad yn wynebu'r Stryd Fawr fel y dangosir ar y cynllun llawr sy'n ffurfio rhan o'r caniatâd hwn oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - sicrhau bod y ffryntiad yn cyfrannu at fywiogrwydd y Stryd Fawr.

44/2001/1102/Cynllunio Llawn

(Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 25ain Rhagfyr 2001).
(Ar ôl ystyried 5 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan, Pennaeth Priffyrdd, Ecolegydd y Sir, Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Chymdeithas Amgylcheddol Y Rhyl).
Codi 2 uned Ddiwydiannol (Dosbarth B1 a B2) ac adeiladu lleoedd parcio ceir ac estyniad i ffordd bresennol y stad i greu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr yn Unedau 14 a 15 Parc Cyflogaeth Cefndy, Ffordd Cefndy, Y Rhyl.
YN AMODOL ar Amodau Newydd rhif 4, 8, 9, 10 ac 11.
4. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cynnal o fewn y safle ar gyfer llwytho a dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno'n ysgrifenedig ganddo; ac mae'r fath gynllun i'w gwblhau cyn dechrau'r defnydd a gymeradwyir drwy hyn.
8. mae cylchfa ragod y pwll a'r holl goed, gwrychoedd a thirlunio arall sydd mewn bod, fel y'u dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth ac yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn, i'w cadw fel rhan o'r datblygiad. Cyn cychwyn unrhyw glirio ar y safle a gwaith adeiladu mae ffens 1 metr o uchder i'w chodi 1 metr y tu allan i derfynau eithaf y gylchfa ragod a rhychwant canghennau coed, gwrychoedd a thirlunio arall. Nid oes dim defnyddiau adeiladu neu eitemau o unrhyw fath i'w llosgi neu eu rhoi ar y ddaear sy'n gorwedd rhwng unrhyw goed, tirlunio neu wrychoedd a ffens o'r fath, ac o fewn y mannau hyn nid yw lefel bresennol y ddaear i'w chodi neu'i gostwng, neu unrhyw ffosydd neu redfeydd pibelli i'w cloddio, oni bai y cytunwyd yn ysgrifenedig yn flaenorol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
9. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o'r tirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion:

(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd mewn bod ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygu.

(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;

(c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dreif(s), llwybrau a mannau wyneb caled eraill;

(d) cloddio, graddio a phentyrru tir arfaethedig a newidiadau yn y lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru arfaethedig â'r llystyfiant presennol a'r dirffurf oddi amgylch;

(e) lleoliadau, dyluniad, defnyddiau a math o driniaeth terfyn a arfaethir.

10. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w gwneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol, i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaethau tebyg.

11. Nid oes neb i feddiannu'r un o'r ddwy uned a ganiateir drwy hyn hyd nes y bydd darpariaeth wedi'i gwneud o fewn y safle ar gyfer storfa sbwriel amgaeëdig yn unol â manylion sydd wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

12. Cyn meddiannu'r adeilad(au) a ganiateir drwy hyn gyntaf, mae cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chael mewn perthynas â lleoli a dylunio'r fynedfa gerbydol i'r safle, ac mae'r fynedfa i'w chwblhau'n gyfan gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.

13. Nid yw'r ffordd fynediad a ddangosir ar y cynllun bloc Lluniad Rhif AL(0) 02 i'w darparu y tu draw i'r fynedfa i unedau 14 ac 15 hyd nes y bydd cynigion ar gyfer y tir i'r gogledd-ddwyrain (Caeau Chwarae Ysgol y Bendigaid Edward Jones) wedi'u cyflwyno fel cais cynllunio ac y bydd y cais cynllunio hwnnw wedi'i gymeradwyo.

RHESWM - sicrhau bod y ffordd fynediad wedi'i chynllunio i adlewyrchu ei phwrpas ac i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu angen am y ffordd gyswllt.

| | |
|---|---|
| 44/2001/1103/Cynllunio Llawn | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 25ain Rhagfyr 2001) |

(Ar ôl ystyried pum llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan, Pennaeth Priffyrdd, Ecolegydd y Sir, Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cymdeithas Amgylchedd Y Rhyl).

Codi 2 Uned Ddiwydiannol (Dosbarth B1 a B2) yn Unedau 12 ac 13 Parc Cyflogaeth Cefndy, Ffordd Cefndy, Y Rhyl.

YN AMODOL ar Amodau Diwygiedig rhifau 4, 8, 9 a 10:-

4. Nid yw defnydd yr unedau a ganiateir drwy hyn i ddechrau hyd nes y bydd y lleoedd parcio wedi'u haddasu i ddarparu 6% o'r lleoedd ar gyfer parcio i'r anabl a mynediad gwasanaethu i'r unedau a ganiateir drwy hyn yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

8. mae cylchfa ragod y pwll a'r holl goed, gwrychoedd a thirlunio arall sydd mewn bod, fel y'u dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth ac yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn, i'w cadw fel rhan o'r datblygiad. Cyn cychwyn unrhyw glirio ar y safle a gwaith adeiladu mae ffens 1 metr o uchder i'w chodi 1 metr y tu allan i derfynau eithaf y gylchfa ragod a rhychwant canghennau'r coed, gwrychoedd a thirlunio arall. Nid oes dim defnyddiau adeiladu neu eitemau o unrhyw fath i'w llosgi

| | |
|---|---|
| | neu eu rhoi ar y ddaear sy'n gorwedd rhwng unrhyw goed, tirlunio neu wrychoedd a ffens o'r fath, ac o fewn y mannau hyn nid yw lefel bresennol y ddaear i'w chodi neu'i gostwng, neu unrhyw ffosydd neu redfeydd pibelli i'w cloddio, oni bai y cytunwyd yn ysgrifenedig yn flaenorol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>9. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o'r tirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion:<br>(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd mewn bod ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygu.<br>(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;<br>(c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dreif(s), llwybrau a mannau wyneb caled eraill;<br>(d) cloddio, graddio a phentyrru tir arfaethedig a newidiadau yn y lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru arfaethedig â'r llystyfiant presennol a'r dirffurf oddi amgylch;<br>(e) lleoliadau, dyluniad, defnyddiau a math o driniaeth terfyn a arfaethir.<br>10. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w gwneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol, i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaethau tebyg.<br>11. Nid oes neb i feddiannu'r un o'r ddwy uned a ganiateir drwy hyn hyd nes y bydd darpariaeth wedi'i gwneud o fewn y safle ar gyfer storfa sbwriel amgaeëdig yn unol â manylion sydd wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. |
| 44/2001/1046/Adran 73A (Parhad/ Cadw) | Cadw ystafell wydr yng nghefn y tþ annedd (Cais ôl-weithredol) yn 3 Pine Tree Walk, Y Rhyl. |
| 44/2001/1081/Cynllunio Llawn | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 25ain Rhagfyr 2001)<br>(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a Grwp Gweithredu Sir Ddinbych)<br>Dymchwel yr adeiladau presennol a chodi bloc newydd o 28 o fflatiau gyda garejis oddi tanodd a pharcio ceir cysylltiedig a thirlunio yn 58 - 62, yn gynhwysol, West Parade, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd rhif 10 a Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:-<br>10. Nid oes neb i fyw yn yr un o'r fflatiau a ganiateir drwy hyn hyd nes y bydd darpariaeth wedi'i gwneud o fewn y safle ar gyfer storfeydd biniau amgaeëdig a mannau sychu, yn unol â manylion sydd wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>Nodiadau i'r Ymgeisydd -<br>(i) Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd 1, 3, 4, 5 a 10;<br>(ii) Tynnir eich sylw at y Ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991); |

(iii) Nodir bod y cynigion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer fflatiau i'r anabl. Argymhellir eich bod yn cysylltu â Grwp Mynediad Sir Ddinbych ynghylch manylion y fflatiau, mynedfeydd, garejis a pharcio ceir. Mae manylion cysylltu fel a ganlyn:- e.bost -denbaccess@aol.com, rhif ffôn 01745 853092.

| | |
|---|---|
| 45/2001/1106/Cynllunio Llawn | Newid defnydd o siop llawr isaf (Dosbarth A1) yn swyddfeydd Dosbarth A2) yn 74 Stryd Fawr, Y Rhyl. |
| 46/2001/0965/Amlinellol | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn dyddiad diwedd y rhybudd a gyflwynwyd i'r tirfeddiannwr).<br>(Ar ôl ystyried cynllun ychwanegol ac un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth y Gwasanaethau Tai).<br>Datblygu 0.04 hectar o dir drwy godi 1 Annedd (Cais Amlinellol) yn Rhan o Ardd 1 a 2 West View, Penrhewl, Llanelwy. |
| 47/2001/1044/Cynllunio Llawn | Codi estyniad to serth deulawr y tu ôl i'r tŷ annedd a garej ddwbl/ stiwdio to serth ar ei phen ei hun yn Arllwyn, Tremeirchion, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar Amod Diwygiedig rhif 4:-<br>4. dileu "ar wahân neu ddigyswllt". |

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 22/2001/0853/Cynllunio Llawn | Codi estyniad i addasiad adeilad llaeth yn dŷ annedd a gymeradwywyd yn flaenorol dan Rif Côd 22/2001/291/PF yn Fferm Plas yn Rhos, Llanychan, Rhuthun.<br>Yn dilyn cynnig i ROI caniatâd cynllunio ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio, o blaid neu yn erbyn argymhelliad y Swyddog i WRTHOD caniatâd.<br><u>O blaid (gwrthod caniatâd cynllunio) (17)</u><br>Y Cynghorwyr J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, R.W. Hughes, P.M. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams a P.O. Williams.<br><u>Yn erbyn (rhoi caniatâd cynllunio) (5)</u><br>Y Cynghorwyr P.A. Dobb, K.N. Hawkins, N. Hugh-Jones, G. Jones ac R.Ll. Williams.<br><u>Yn atal eu pleidlais (1)</u><br>Y Cynghorydd R.E. Jones.<br>Felly pleidleisiodd yr Aelodau i WRTHOD caniatâd cynllunio.<br>(Gofynnodd y Cynghorydd N.J. Hughes iddo gael ei nodi na phleidleisiodd ef ar y cynnig hwn). |

*(b) gohiriwyd y cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 46/2001/1080/Cynllunio Llawn | Newid defnydd tir i ffurfio safle carafanau teithiol ar gyfer 10 o garafanau teithiol a storio 16 o garafanau (yn rhannol ôl-weithredol) yn Spring Gardens, The Roe, Llanelwy.<br>RHESWM - i ystyried materion yn ymwneud â'r fynedfa, polisi, hanes a llwybr troed. |

(c) *tynnwyd y ceisiadau canlynol yn ôl:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2001/0744/Caniatâd Adeilad Rhestredig | Newid defnydd siop adwerthu yn siop fwyd prydau parod yn 12 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun. |
| 2/2001/736/PF | Newid Defnydd siop adwerthu (dosbarth A1) yn siop fwyd prydau parod (dosbarth A3) i werthu pizzas yn Vanity Fayre, 12 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun |

**1029. CYNLLUN GOFODOL CYMRU - LLWYBR AT DDATBLYGU CYNALADWY - YMGYNGHORI GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *cytuno'r adroddiad, sy'n cynnwys cyfeiriad at bolisi cludiant cyhoeddus a dyfodol yr iaith Gymraeg, fel ymateb ffurfiol y Cyngor i ddogfen ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol 'Cynllun Gofodol Cymru: Llwybr at Ddatblygu Cynaladwy'.*

**1030. STATWS Y CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol). Tra'n ystyried yr adroddiad, cytunodd yr Aelodau ar y cywiriad canlynol - 4.3 nid 4.4.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ymagwedd a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn at statws y CDU a'i ddefnydd mewn rheoli datblygu.*

**1031. CDU YNYS MÔN - ADNAU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad fel ymateb Cyngor Sir Ddinbych i CDU Ynys Môn, heb godi unrhyw wrthwynebiadau.*

**1032. YR YMGYNGHORIAD GAN CADW AR DDIRPRWYO CANIATÂD ADEILADAU RHESTREDIG A STRATEGAETHAU TREFTADAETH LLEOL**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** -

(a) *croesawu'r symudiadau tuag at fwy o ddirprwyo gan y byddai hyn yn gwella cyflymder trin ceisiadau adeiladau rhestredig; a*

(b) *bod Swyddogion yn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol yn unol â hynny.*

**1033. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

***PENDERFYNWYD*** *gan nad oedd dim gofyn am ymweliadau safle, bod yr eitem hon i'w thynnu'n ôl.*

**1034. ENWI STRYDOEDD DATBLYGIADAU NEWYDD**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**1035.** **<u>CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG - 10FED TACHWEDD - 30AIN TACHWEDD 2001</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 10fed Tachwedd, 2001 a'r 30fed Tachwedd, 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**1036.** **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO ARBENNIG (CDU)</u>**

Rhoddodd y Cynghorydd R.W. Hughes ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod i ddilyn y Pwyllgor Cynllunio.

Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd S. Thomas fel Cadeirydd y Pwyllgor Arbennig. Gan nad oedd dim enwebiadau pellach, fe -

***BENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd S. Thomas i gadeirio'r Pwyllgor Cynllunio Arbennig (CDU) i ddechrau am 12 hanner dydd.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.25a.m.**

***********